

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 20/01/2020 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Iwan Hughes
D Andrew Parry
Rhian Parry
Clerc

Greta Hguhes
William Penri Jones

John Brinley Jones
Thomas Victor Jones

William Roger Jones
Rhodri Elis Owen

1. Ymddiheuriadau

Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Evan Glyn Thomas

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

Greta Hguhes – Ceisiadau Cynllunio Fferm Crugan C19/1161, C19/1178, C19/1177, C19/1179

3. Cofnodion 02/12/2019

Nodwyd bod y dyddiad anghywir dop y cofnodion, mae'r Clerc yn cywiro. Mae Penri Jones yn cynnig (eilydd: John Brinley Jones) derbyn Cofnodion 02/12/2019 yn gywir, mae'r cynnig yn llwyddiannus ac mae'r Cadeirydd yn eu harwyddo.

4. Unrhyw Fater Brys

- **Llythyr gan ddarparwr y Gliniadur** – Derbyniwyd llythyr yn cynnig yswiriant pellach ar y gliniadur gan fod y warant yn dod i ben. Penderfynwyd peidio cymryd yr yswiriant.
- **Anfoneb Cyfraniad Traethau gan Gyngor Gwynedd** – Nodwyd bod y Cyngor Cymuned eisoes wedi talu'r cyfraniad. Bu'r Clerc yn cysylltu i drafod gyda Chyngor Gwynedd. Nodwyd hefyd nad y Cyngor Cymuned wedi derbyn unrhyw daliad eto eleni gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Maent bellach mewn dirwy o £2000. Bydd y Clerc yn cysylltu eto gyda'r ymddiriedolaeth Genedlaethol.

5. Cae chwarae

Nid yw Barbra Warren yn bresennol, gohirio at bwyllgor mis Chwefror.

6. Y Fynwent

Mae'r Clerc wedi gyrru i bedwar syrfewyr lleol am ddyfynbris i wneud gwaith cychwynnol y fynwent newydd. Bu'r Clerc ddilyn i fynnu gan obeithio cael pedwar pris erbyn cyfarfod mis Chwefror er gallu mynd ymlaen a'r cynlluniau.

7. Awdit

Mae'r gwaith dal i fynd yn ei flaen. Bu'r Clerc yn gyrru dogfennaeth briodol ymlaen pan mae ar gael i wneud hynny. Nid oes mynediad l gyfrif banc y Cyngor Cymuned. Bydd y Clerc yn cysylltu gyda Lloyds a Natwest am diweddariad.

8. Rhestr Eiddo

Diolch i Iwan Hughes a Rhodri Ellis Owen am fynd trwy'r rhestr eiddo hefo'r Clerc er gwyro. Mae yna fan newidiadau wedi eu cynnig. Bydd y Clerc yn gyrru rhestr eiddo diweddaraf i'r holl aelodau er eu gwyro.

9. Llwybrau

Diolch i Iwan Hughes a Rhodri Ellis Owen am fynd trwy'r rhestr Llwybrau hefo'r Clerc er gwyro. Mae yna nifer o awgrymiadau wedi eu cynnig. Bydd y Clerc yn gyrru rhestr llwybrau a map i'r holl aelodau er eu gwyro.

Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Iwan Hughes • Iwan.hughes2@btinternet.com • 07973 661 943 •

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 20/01/2020 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

10. Traethau

Mae'r Clerc wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r problemau sydd yn cynnwys gyda chwn ar y traeth. Mae Barry Davies Swyddog Morwrol yn nodi nad yw'n drosedd neu fethiant cydymffurfio a rheolau cwn gan nad oes waharddiad cwn ar y traeth yn Llanbedrog.

Mae Greta Hughes yn nodi bod Is-ddeddf Rheoliadau Cwn yn nodi fod cwn i fod ar dennyn. Mae'r aelodau yn cytuno i'r Clerc gwneud ymholiadau pellach.

Mae aelodau yn nodi bod gwaith yn mynd ymlaen ar y traeth. Nid oes cof o unrhyw gais cynllunio yn dod o flaen y pwyllgor. Nid yw'r Cyngor Cymuned yn gwybod beth yw'r gwaith nac ychwaith amserlen gwneud y gwaith. Bydd y Clerc yn ymchwilio i hyn gyda Chyngor Gwynedd ac yn adrodd yn ôl i'r Aelodau.

Nodwyd bod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi gosod platiau i gau tyllau bolard ar waelod yr allt i'r traeth. Mae'r rhain yn beryglus iawn i'r cyhoedd gan fod ochor uchel arnynt ac maent yn anodd yw gweld yn y tywod felly maen yn berygl baglu. Bydd y Clerc yn cysylltu gyda'r ymddiriedolaeth Genedlaethol i ofyn iddynt newid y platiau.

11. PRAESEPT

Mae'r Cynghorwyr wedi derbyn adroddiad ariannol am y flwyddyn hyd yn hyn. Gweler Atodiad 1 ac Atodiad 2 Mae William Penri Jones yn cynnig (eilydd; William Roger Jones) bod y Cyngor Cymuned yn rhoi rhodd o £2500 tuag at Eisteddfod Genedlaethol Boduan 2021. Mae hyn yn golygu bydd oddeutu £3 yn cael ei god o bob tŷ yn Llanbedrog tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r cynnig yn llwyddiannus.

Penderfynwyd peidio â chodi mwy ar y presept felly cytunwyd i osod presept o £21,500 sydd yn cynnwys cyfraniad o £2500 tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan. Mae'r Clerc yn arwyddo'r gwaith papur priodol yn barod yw gyrru i Gyngor Gwynedd cyn y dyddiad cau.

Cynigwyd Iwan Hughes (Eilydd; William Roger Jones) i gadw £4000 o arian y Cyngor Cymuned tuag at waith cychwynnol y fynwent newydd. Mae'r cynnig yn llwyddiannus.

12. Cofebion Mynydd Tir y Cwmwd

Bu'r Clerc cysylltu gyda Gemma Nichols o'r Llanbedrog Headland Company. Mae'n cadarnhau nad oes caniatâd i'r cofebion ac nid oes hawl yw gosod ar y tir. Mae Llanbedrog Headland Company ynghyd a Chyfoeth Naturiol Cymru yn awyddus i waredu'r cerrig yma. Mae'n sefyllfa sensitif iawn ac mae eisiau mynd ymlaen yn ofalus. Nid yw aelodau'r Cyngor Cymuned yn ymwybodol o bwy sydd wedi gosod y cerrig.

Mae'r aelodau yn hapus i dynnu lluniau o'r cerrig yw gyrru i Lanbedrog Headland Company i fynd ymlaen hefo'r gwaith o'i gwaredu.

Bydd y Clerc yn cadw cysylltiad gyda Llanbedrog Headland Company a Chyfoeth Naturiol Cymru.

13. Eisteddfod Genedlaethol 2021

Mae Cyfarfod Cyhoeddus yn cael eu cynnal i drafod codi arian tuag at yr eisteddfod Genedlaethol 21/01/2020.

Bydd William Penri Jones yn mynychu ac yn nodi bod y Cyngor Cymuned yn awyddus i wneud cyfraniad.

Bydd William Penri Jones yn adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned ym mhwyllgor mis Chwefror.

Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Iwan Hughes • Iwan.hughes2@btinternet.com • 07973 661 943 •

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 20/01/2020 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Taliadau wedi eu cymeradwyo

Cyflog y Clerc - Rhian Parry

Rhagfyr £333.33

Ionawrr £333.33

£666.66

Rhian Parry - Ad-daliad meddalwedd gliniadur

£94.99

Kevin Thomas Trydanwr – Gosod soced tu allan i'rganolfan

£155.00

Andrew Pozzi – Torri Llwybrau

£2628.00

Arfon Parry - Cynnal y wefan

£28.00

Dei Russell – Gwaith yn y Cae chwarae

£295.00

Taliadau wedi eu Gwneud

Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn taliad am y goeden nadolig fel rhodd.

Bydd yn talu Glasfryn yn uniongyrchol

£136.80

Taliadau wedi eu Derbyn

Rent tir y fynwent newydd

£742.00

Mae'r Cyngor Cymuned yn awyddus i yrru gohebiaeth yn diolch am y rhodd caredig iawn gan unigolyn sydd wedi talu am y goeden Nadolig, bydd y Clerc yn trefnu hyn.

Ceisiadau Cynllunio

C19/1139/38/CC

Gwaith i goed o fewn ardal dan Orchymyn Gwarchod Coed.

The Yard, Abersoch Road

Dirprwyo i'r Swyddog Coed

C19/1161/38/LL

Codi adeilad amaethyddol newydd (Adeilad 1 o 4)

Fferm Crugan, Llanbedrog

Dim Gwrthwynebiad

C19/1178/38/LL

Codi adeilad amaethyddol newydd (Adeilad 2 o 4)

Fferm Crugan, Llanbedrog

Dim Gwrthwynebiad

C19/1177/38/LL

Codi adeilad amaethyddol newydd (Adeilad 3 o 4)

Fferm Crugan, Llanbedrog

Dim Gwrthwynebiad

C19/1179/38/LL

Codi adeilad amaethyddol newydd (Adeilad 4 o 4)

Fferm Crugan, Llanbedrog

Dim Gwrthwynebiad

Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Iwan Hughes • Iwan.hughes2@btinternet.com • 07973 661 943 •

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 20/01/2020 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Gohebiaeth

1. **Clerks & Council Direct** – Newyddlen
2. **Llywodraeth Cymru** - Cylchlythyr Cysylltu Cymunedau yng Nghymru
3. **Lloyds TSB** – Methu prosesu siec, dim mandad.
4. **Llywodraeth Cymru** - Dogfen Ymgynghori - Newidiadau i ffoedd cynllunio a chesidiadau cysylltiedig
5. **Cyngor Tref Porthmadog** - gwasanaeth bws i Ysbyty Alltwen, Tremadog
6. **Unllais Cymru** - Cynhadledd Gwobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru Dydd Iau 26ain Mawrth 2020
7. **Un Llais Cymru** - Cyfarfod Pwyllgor Ardal Arfon / Dwyfor – **Nodwyd bod Victor Jones am fynychu'r cyfarfod ac adrodd yn ol i'r aelodau.**
8. **VE Day** – Gwybodaeth
9. **Llywodraeth Cymru** - Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Cymru Fwy Cyfartal - Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol
10. **YDCW** - Gwobr Pentrefi Sir Gaernarfon

Cais am gyfraniad

1. **O Ddrws i Ddrws** - Cais i ariannu cynllun i ddanfoni pobl i'r feddygfa
2. **BOBATH** – Canolfan Therapi Plant Cymru
3. **Ysgol Llanbedrog** – Rhodd i osod polyn fflag
4. **Elusen Ambiwylans Awyr Cymru** – Cais am rhodd.
5. **Cynorthwyo Nyrsys a gwasanaethau lleol Marie Curie.**
6. **Parêd Dewi Sant Pwllheli** – Cais am gyfraniad
7. **Dawns i Bawb** – Cais am gyfraniad
8. **Theatr Bara Caws** – Cais am gyfraniad
9. **Eisteddfod yr Urdd** – Sir Ddimbych 2020

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 20/01/2020 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Atodiad 1

CYLLIDEB 2020-2021 ITEM TALIADAU

Eitem	Taliadau 19-20	2020 - 2021
Incwm		
Rent -Cae'r Fynwent	£ 214.00	£ 214.00
Gwariant		
<u>Llwybrau</u>	£ 3,128.00	£ 3,200.00
Torri Llwybrau	£ 2,628.00	£ 2,700.00
Gwaith Ychwanegol	£ 500.00	£ 500.00
<u>Cae Chwarae</u>	£ 6,689.00	£ 4,800.00
Cae Chwarae	£ 1,535.00	£ 1,500.00
Pentre Llan	£ 740.00	£ 800.00
Gwaith Ychwanegol	£ 4,414.00	£ 2,500.00
<u>Traethau a Thoiledau</u>	£ 2,000.00	£ 2,500.00
Toiledau	£ 2,000.00	£ 2,000.00
Traethau		£ 500.00
<u>Mynwentydd *</u>	£ 358.75	£ 360.00
Dwr Cymru – y fynwent	£ 98.75	£ 100.00
Cynnal a Chadw	£ 260.00	£ 260.00
<u>Gweinyddol</u>	£ 5,982.92	£ 6,620.00
Yswiriant Cyngor	£ 819.84	£ 900.00
Cyflog y Clerc	£ 4,000.00	£ 4,500.00
Offer Gweinyddol	£ 192.08	£ 200.00
Cyrsiau	£ 120.00	£ 160.00
Awdit		
Mewnol	£ 180.00	£ 180.00
Allanol	£ 300.00	£ 300.00
Ffioedd		
Un Llais Cymru	£ 231.00	£ 240.00
ICO	£ 40.00	£ 40.00
SLCC	£ 100.00	£ 100.00
<u>Cyfraniadau</u>	£ 145.00	£ 2,750.00
Eisteddfod Genedlaethol Boduan 2022 *		£ 2,500.00
Eraill	£ 145.00	£ 250.00
<u>Arall</u>	£ 882.78	£ 1,270.00
Coed Nadolig	£ 126.98	£ 200.00
Blodau	£ 200.00	£ 300.00
Bin Halen	£ 220.80	£ 230.00
Meinciau a Hysbysfyrdau	£ 135.00	£ 140.00
Arall	£ 200.00	£ 400.00
	£ 19,186.45	£ 21,500.00

Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Iwan Hughes • Iwan.hughes2@btinternet.com • 07973 661 943 •

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 20/01/2020 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

- * Mae'r Cyngor Cymuned wedi penderfynu codi'r praesept £2,500 yn 2020-2021 i ddarparu rhodd i Eisteddfod Genedlaethol Boduan 2022
- * Mae'r Cyngor Cymuned wedi penderfynu clusnodi £4,000 o bunoedd o'r cyllideb at waith paratoi y Fynwent Newydd

Awgrymu PRAESEPT £21,500.00

Atodiad 2

<u>Cyfnod 2019 - 2020</u>	<u>Cae Chwarae</u>	<u>Llwybrau</u>	<u>Mynwentydd</u>	<u>Traethau a Thoiledau</u>	<u>Cyfraniad</u>	<u>Gweinyddol</u>	<u>Arall</u>	<u>Cyfanswm</u>
01/04/2018 - 30/06/2018	£2,420.00	-	£358.75	-	£145.00	£1,192.07	£220.80	£4,336.62
01/07/2018 - 31/08/2018	£4,269.00	-	-	£2,000.00	-	£1,039.99	£200.00	£7,508.99
01/09/2018 - 31/12/2018	£135.00	-	£260.00	-	-	£846.66	£126.98	£1,368.64
01/01/2019 - 31/03/2019	£295.00	£2,628.00	-			£456.32	£155.00	£3,534.32
Cyfanswm	£7,119.00	£2,628.00	£618.75	£2,000.00	£145.00	£3,535.04	£702.78	£16,748.57

PRESEPT	19,000.00
Gwariant	16,748.57
Gweddill	£ 2,251.43